

CYNNAL

GWASANAETH IECHYD GALWEDIGAETHOL

Mae Iechyd Galwedigaethol yn ymwneud â chynnig cefnogaeth i staff sydd i ffwrdd o'u gwaith oherwydd salwch, cynorthwyo i adnabod rhesymau dros salwch yn y gweithle, ynghyd â datrys anawsterau a phroblemau a achosir gan salwch.

Mae CYNNAL yn cynnig Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol cyfrinachol i holl weithwyr y cwmni, drwy danysgrifio a chymryd rhan yn y gwasanaeth a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Bydd y gwasanaeth yma ar gael o Ebrill 2012.





Amcanion Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol

- Hyrwyddo a chynnal lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol POB gweithiwr.
- Darparu gwasanaeth iechyd sy'n annibynnol, cyfrinachol ac ymgynghorol.
- Hyrwyddo a chydymffurfio gyda deddfwriaeth iechyd a Diogelwch

Cyngor/Gwybodaeth i Reolwyr a Gweithwyr

Dyma rai o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol i weithwyr CYNNAL:

- Cynnig cyngor i staff ynghylch problemau iechyd sy'n gysylltiedig â'r gwaith.
- Darparu gwybodaeth a chynnal sgysiau anffurfiol, yn arbennig ynglŷn â materion sy'n gysylltiedig â lles / iechyd gweithwyr.
- Cynorthwyo a chefnogi gweithwyr sydd i ffwrdd unai ar salwch tymor hir, yn dilyn damwain, neu yn ystod beichiogrwydd ac wedi hynny.
- Monitro symptomau straen yn y gweithle.
- Monitro rhag sgil-ffeithiau peryglon eraill yn y gweithle.
- Cynorthwyo i leihau a dileu peryglon.
- Cynorthwyo gyda gweithredu polisiau Lles, Iechyd a Diogelwch y cwmni.
- Cynnig asesiadau iechyd cyn cychwyn mewn swydd (pe bai angen).
- Codi ymwybyddiaeth rheolwyr o ddeddfwriaeth a datblygiadau newydd ym maes iechyd galwedigaethol.
- Cydymffurfio â dyletswyddau statudol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y llywodraeth.
- Sicrhau bod y cwmni yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch.

Mae croeso i unrhyw weithiwr siarad yn hollol gyfrinachol gyda'r Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol, i gael mwy o wybodaeth neu gyngor am yr uchod, neu unrhyw fater cysylltiedig arall.



Cyfeirio Staff at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol

Gan amlaf, y cyswllt cyntaf gaiff gweithiwr gyda'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yw drwy gael ei gyfeirio/chyfeirio gan Reolwr. Bydd hyn yn digwydd fel rheol i staff sydd i ffwrdd o'i gwaith oherwydd salwch am 20 diwrnod neu fwy, neu yn dilyn cyfres estynedig o gyfnodau o absenoldebau byr. Amcan y cyfeiriad yw darganfod pa gamau all CYNNAL eu cymryd i gefnogi'r gweithiwr yn ystod yr absenoldeb, a'i gynorthwyo wrth ddechrau yn ôl i'w (g)waith.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn croesawu cyswllt yn gynharach na'r 20 diwrnod, er mwyn ceisio atal absenoldeb salwch tymor hir, yn enwedig os yw'r absenoldeb oherwydd straen / iselder / gofid neu anhwylderau cyhyrysgerbydol ('musuloskeletal').

Bydd y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn cynnig cyngor i'r gweithiwr, yn hysbysu'r rheolwr o hyd posibl yr absenoldeb, ac unrhyw drefniadau arbennig ddylid eu rhoi mewn lle i gynorthwyo'r unigolyn ail-gychwyn yn ôl yn y gwaith e.e. gweithio'n rhan amser, gostwng oriau neu adolygu dyletswyddau dros dro. Bydd y Gwasanaeth yn cynghori'r gweithiwr, y rheolwr a Swyddog Personél y cwmni ynghylch y dewisiadau posibl.

Asesiadau Risg Beichiogrwydd yn y Gweithle / Mamau Newydd

Mae gan bob gweithwraig feichiog hawl i asesiad risg o dan y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch - ac mae CYNNAL wedi paratoi asesiad generig ar hyn.

Fel arfer, bydd rheolwr llinell yn cwblhau asesiad risg benodol ar gyfer pob gweithwraig feichiog, ond mewn amgylchiadau arbennig, bydd yr Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol yn ei gynnal ar y cyd gyda'r rheolwr llinell a/neu'r Swyddog Personél.



Gwasanaeth Cwmsela MEDRA

Mae'r gwasanaeth cwmsela staff yn darparu cwmsela personol, proffesiynol a dwyieithog, sy'n gwbl gyfrinachol, ac yn rhad ac am ddim.

Nod cwmsela yw galluogi staff i ystyried unrhyw bryderon neu broblemau sydd yn effeithio arnynt yn eu gwaith, a cheisio canfod ffyrdd o ymdopi ac ymdrin â hwy'n well.

Mae gan holl gwmselwyr MEDRA gymwysterau, sgiliau a phrofiad priodol. Maent hefyd yn hollol annibynnol o Gyngor Gwynedd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwasanaeth cwmsela, a sut mae'n gweithio, mae croeso i chi gysylltu â'ch rheolwr llinell, neu yn uniongyrchol gyda MEDRA ar (01248) 712865.

Monitro Cyflwr Iechyd

Mae rhai carfannau o weithlu CYNNAL yn fwy tebygol o wynebu peryglon sy'n gallu arwain at broblemau clyw, respiratory, dermatitis a chyhyrol oherwydd natur eu gwaith e.e. gweithio ar ffabrig adeiladau/ysgolion, gweithio gyda chemegau, gweithio mewn llefydd cyfyng / nenfydau adeiladau.... Bydd CYNNAL yn trefnu asesiadau rheolaidd o gyflwr iechyd y staff yma gan y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, i adnabod unrhyw afiechydon/sgil-ffeithiau, ac i fonitro eu cyflwr dros gyfnod o amser.